
**Rhif**: **8**

**Rhif y Cais / Application Number : C15-0603-20-CR**

**Cynllun lleoliad ar gyfer adnabod y safle yn unig. Dim i raddfa.**
**Location Plan for identification purposes only. Not to scale.**



| | |
|---|---|
| Cais Rhif: | C15/0603/20/CR |
| Dyddiad Cofrestru: | 08/06/2015 |
| Math y Cais*:* | Caniatad Adeilad Rhestredig |
| Cymuned*:* | Y Felinheli |
| Ward: | Y Felinheli |
| | |
| Bwriad: | CAIS OL-WEITHREDOL I GADW 3 GIAT CAEEDIG DIOGELWCH |
| Lleoliad: | MENAI MARINA, HEN GEI LLECHI, Y FELINHELI, GWYNEDD, LL56 4JN |

**Crynodeb o'r Argymhelliad:** CANIATAU YN DDIAMODOL

**1. Disgrifiad:**

1.1 Mae'r cais hwn yn gais rhestredig ôl-weithredol i gadw 3 giât gaeedig diogelwch wedi lleoli a'r wal yr harbwr. Mae'r 3 giât wedi lleoli ar y wal ogleddol, de a gorllewinol, ble roedd ysgolion presennol yn mynd i lawr at y cychod. Oherwydd materion diogelwch mae'r giatiau wedi cael ei gosod o gwmpas yr ysgolion ac yn gysylltiedig i'r ddaear gyda 4 polten. Mae'r 3 giât yn mesur 2.2m o uchder ac 1.8m a 1.6m o hyd ac maent wedi ei gwneud o haearn wedi eu paentio yn ddu. Mae rheiliau atodol wedi lleoli o gwmpas y cei yn o gystal ag offer morwrol sydd wedi eu codi ar ochr y cei.

1.2 Mae'r safle yn rhan o'r marina presennol sydd wedi ei leoli yn y Felinheli. Mae wal yr harbwr wedi ei restru fel adeilad rhestredig gradd II. Mae'r safle o fewn parth C2 ardal llifogydd.

**2. Polisïau Perthnasol:**

2.1 Mae Adran 38(6) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 a pharagraff 2.1.2 Polisi Cynllunio Cymru yn pwysleisio y dylid penderfynu ceisiadau yn unol â'r Cynllun Datblygu, oni bai bod ystyriaeth faterol cynllunio yn nodi fel arall. Mae ystyriaethau cynllunio yn cynnwys Polisi Cynllunio Cenedlaethol, a'r Cynllun Datblygu Unedol.

2.2 **Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd 2009:**

B2 - GWNEUD NEWIDIADAU I ADEILADAU RHESTREDIG NEU ADEILADAU YN EU CWRTILAU - Sicrhau nad yw cynigion yn achosi niwed arwyddocaol i gymeriad pensaernïol neu hanesyddol arbennig Adeiladau Rhestredig.

B3 - DATBLYGIADAU SY'N EFFEITHIO AR OSODIAD ADEILAD RHESTREDIG - Sicrhau nad yw cynigion yn cael effaith ar osodiad adeiladau rhestredig oni bai eu bod yn cydymffurfio â chyfres o feini prawf sydd yn anelu i warchod cymeriad arbennig yr Adeilad Rhestredig a'r amgylchedd lleol.

2.3 **Polisïau Cenedlaethol:**

Cylchlythyr y swyddfa Gymreig 61/96 Cynllunio a'r Amgylchedd Hanesyddol: Adeiladau Hanesyddol ac Ardaloedd Cadwraeth

**3. Hanes Cynllunio Perthnasol:**

3.1 C01A/0291/20/CR Darparu pontynau a maes parcio i geir (cais adolygol) - Caniatáu 4-1-2002

**4. Ymgynghoriadau:**

Cyngor Cymuned/Tref: Dim sylwadau

| | |
|---|---|
| Cymdeithas Fictorianaidd | Heb eu derbyn |
| Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru | Dim sylwadau |
| Cymdeithas Henebion Hynafol | Heb eu derbyn |
| Y Grŵp Sioraidd | Ystyrir fod y giatiau yn ddiolwg ac yn difrïo'r strwythur rhestredig. Ddim yn gwrthwynebu newid gan ystyried mai cei gweithredol yw, ond ystyrir bod datrysiad mwy addas i'r mater. |
| Cyngor Archeolegol Prydeinig: | Dim sylwadau |
| Cymdeithas Diogelu Adeiladau Hynafol: | Dim sylwadau |
| Ymgynghoriad Cyhoeddus: | Rhoddwyd rhybudd ar y safle a gwybyddwyd trigolion cyfagos. Mae'r cyfnod hysbysebu wedi dod i ben a derbyniwyd nifer uchel o wrthwynebiadau ar sail materion cynllunio perthnasol yn ymwneud gyda:<br><br>• Effaith y giatiau ar fwynhad y cyhoedd o'r marina<br>• Colli mynediad i gerdded ar hyd y marina<br>• Mater iechyd a diogelwch<br>• Dyluniad y giatiau ddim yn cydymffurfio a gweddill y marina<br>• Ddim yn gweddu oherwydd ei maint, deunydd a dyluniad gwael<br>• Creu niwed i'r strwythur rhestredig drwy'r gwaith tyllu<br>• Effaith ar gymeriad arbennig, diddordeb ac edrychiad y cei hanesyddol<br><br>Yn ogystal, derbyniwyd sylwadau nad oeddent yn faterion cynllunio perthnasol:<br>• Wedi codi heb ganiatâd |

**5. Asesiad o'r ystyriaethau cynllunio perthnasol:**

5.1 Gan mai cais adeilad rhestredig yw hwn, yr unig faterion sydd yn cael ei hasesu yw'r materion cadwraethol, sef effaith ar edrychiad a chymeriad hanesyddol a phensaernïol yr adeilad rhestredig. Nid oes unrhyw faterion eraill yn berthnasol wrth asesu'r cais hwn.

5.2 Dywed Paragraff 68 o Gylchlythyr y Swyddfa Gymreig 61/96 "Cynllunio a'r Amgylchedd Hanesyddol: Adeiladau Hanesyddol ac Ardaloedd Cadwraeth" y dylai Awdurdodau Cynllunio Lleol roi sylw arbennig i ddymunoldeb cadw'r adeilad rhestredig neu ei gefndir neu unrhyw nodweddion o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol sydd ganddo. Mae Polisi B2 o CDUG yn ategu hyn ac yn datgan y caniateir cynigion am newidiadau allanol neu fewnol, ychwanegiadau, neu newid

defnydd Adeiladau Rhestredig ar yr amod na fydd y cynigion yn achosi niwed arwyddocaol i gymeriad pensaernïol neu hanesyddol arbennig yr adeilad.

5.3 Mae'r bwriad yn golygu cadw 3 giât gaeedig diogelwch sydd wedi eu lleoli a'r wal yr harbwr. Mae'r 3 giât wedi eu lleoli ar y wal ogleddol, de a gorllewinol, ble roedd ysgolion presennol yn mynd i lawr at y cychodd. Oherwydd materion diogelwch mae'r giatiau wedi gosod o gwmpas yr ysgolion a'i gosod i'r ddaear gyda 4 polten. Rhaid cofio yn yr achos yma fod y marina yn safle gweithredol sydd eisoes wedi ei ddatblygu, ac mae gofynion y marina yn newid dros amser ac mae'n rhaid iddo felly dyfu a datblygu yn unol â'r gofynion. Rhaid nodi hefyd fod y gwaith yn waith y gall ei dynnu heb adael difrod i wal yr harbwr sydd yn adeilad rhestredig.

5.4 Mae'r giatiau yn eithaf mawr, yn mesur 2.2m o uchder ac 1.8m a 1.6m o hyd, ond o ystyried cyd-destun y safle yn ei gyfanrwydd, ni ystyrir fod y giatiau yn weladwy iawn o unrhyw gyfeiriad ac nad ydynt yn cael effaith andwyol ar edrychiad na chymeriad y wal restredig. Maent hefyd wedi eu paentio yn ddu, ac maent yn ymdoddi i'w cefndir yn eithaf llwyddiannus fel nad ydynt yn amharu ar edrychiad a gosodiad y wal sydd yn union a gofynion polisi B3 o'r CDUG.

5.5 Mae'r gwaith gosod y giatiau i mewn i'r ddaear wedi ei wneud drwy dorri tyllau i mewn i'r llechi. Eto fel marina gweithredol, mae llawer o dyllau hanesyddol ar hyd llechi'r cei felly nid yw hyn allan o gymeriad i'r strwythur ac ni ystyrir yn yr achos yma y byddai'r gwaith yn amharu ar gymeriad y wal restredig. Ystyrir felly fod y bwriad yn cydymffurfio a pholisïau B2 a B3 CDUG.

**Yr ymateb i'r ymgynghoriad cyhoeddus**

5.6 Mae'r asiant wedi cyflwyno llythyr yn ymateb i'r gwrthwynebiadau a dderbyniwyd, ac yn bennaf maent yn nodi mai defnydd hanesyddol o'r safle yw fel cei ac mai parhau gyda'r defnydd gwreiddiol yw'r bwriad yma sydd yn unol â gofynion y Cylchlythyr 61/96 Cynllunio a'r Amgylchedd Hanesyddol: Adeiladau Hanesyddol ac Ardaloedd Cadwraeth.. Mae'r llythyr yr asiant hefyd yn cyfeirio at lythyr gwrthwynebu'r Grŵp Sioraidd sydd yn datgan y dylid ystyried opsiwn arall, mae'r asiant yn nodi fod hwn eisoes wedi ystyried ond oherwydd natur cymhleth y safle a gofynion iechyd a diogelwch, hwn oedd yr unig opsiwn.

5.7 Mae'r gwrthwynebiadau a dderbynnir hefyd yn cyfeirio at effaith y giatiau ar fwynhad y cyhoedd o'r marina. Ni ystyrir fod y giatiau yn effeithio ar fwynhad y cyhoedd o'r cei gan fod y giatiau yn ymdoddi i'w cefndir a'r holl weithgareddau hwylio presennol a welir yno.

**6. Casgliadau:**

6.1 Er gwaethaf y ffaith fod y giatiau presennol yn eithaf mawr ar y safle, rhaid ystyried cyd-destun y safle yn ei gyfanrwydd - mae'r safle yn rhan o farina gweithredol gyda chychod sylweddol a'r holl daclau cysylltiedig gyda gweithgareddau hwylio i'w gweld o gwmpas. Am y rhesymau hyn, nid yw'r giatiau i'w gweld allan o le ar y safle yma nac yn cael effaith ar gymeriad y wal restredig. Mae'r cyfiawnhad am y giatiau yn datgan eu bod yn rhan hanfodol o sicrhau iechyd a diogelwch ar y marina hwnnw. Mae'r giatiau yn gysylltiedig gyda'r rheiliau presennol ac yn dderbyniol yn y cyd-destun hwnnw hefyd. Ni ystyrir y byddai caniatáu'r cais yn cael effaith andwyol a'r edrychiad na chymeriad hanesyddol yr adeilad rhestredig na mwynderau'r ardal yn ehangach ac felly ystyrir fod y bwriad yn unol â pholisïau B2 a B3 CDUG.

**7. Argymhelliad:** Caniatáu